COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DDYDD IAU, 18 EBRILL 2024 AM 10:00.

Yn Bresennol yn Rhithiol

G Chapman – Cadeirydd (aelod Lleyg)

| | | | |
|---|---|---|---|
| S J Bletsoe | C Davies | R M Granville | S J Griffiths |
| M L Hughes | M J Williams | | |

Aelodau Lleyg - n Bresennol yn Rhithiol

| | |
|---|---|
| A Bagley | B Olorunnisola |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

A Williams

Datganiadau o Fuddiant

G Chapman – Personol – eitem 6 - Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Cyngor Bro Morgannwg.

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid |
| Nigel Smith | Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd |
| Martin Morgans | Pennaeth Partneriaethau a Thai |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Kate Pask | Swyddog Gwelliant Corfforaethol - Perfformiad |
| Samantha Clements | Archwilio Cymru |
| David Williams | Archwilio Cymru |

| | |
|---|---|
| Rachel Harries | Archwilio Cymru |
| Andrew Wathan | Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Joan Davies | Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Simon Roberts | Uwch Ymchwilydd Twyll |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau/ Swyddog Craffu Dros Dro |

## 135. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD:<br><br>Derbyn cofnodion cyfarfod 25 Ionawr 2024 fel cofnod gwir a manwl gywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 18 Ebrill 2024 |

## 136. Adroddiadau Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Archwilio Cymru

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad hwn oedd cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor gan Archwilio Cymru. Cyflwynwyd dau adroddiad i'w hystyried:<br><br>**Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: Deilliannau a Phersbectif Defnyddiwr Gwasanaeth - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr,**<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Pwysigrwydd enghreifftiau a rhannu arfer da:<br>• Yr angen am ffocws ar allbynnau a deilliannau.<br>• Pryder yr Aelodau ynghylch persbectif y defnyddiwr i wella gwasanaethau.<br>• Diffyg gwybodaeth gymharol ar sut mae Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr yn cymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru.<br>• Gwerth posibl edrych ar sectorau eraill.<br>• A yw'r awduron wedi defnyddio profiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. |

<table>
<tr><td></td><td>Mewn ymateb i'r pwyntiau hyn, nododd swyddogion o Archwilio Cymru nad oedd Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr yn allanolyn. Roedd rhai awdurdodau'n gwneud mwy ond fe all hynny fod o ganlyniad i'r adnoddau oedd ganddynt. Yn ychwanegol, fe fyddai adroddiad cenedlaethol yn dod â chanfyddiadau'r gwaith hwn ynghyd.<br><br>Adolygiad o Strategaeth Ddigidol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd Aelodau a Swyddogion nifer o faterion, yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Dull y Cyngor o greu achosion busnes a chyfiawnhau cost prosiectau TG sylweddol.<br>• Pwysigrwydd dysgu o brosiectau: beth gafodd ei addo, beth gafodd ei gwblhau, beth oedd y deilliant, a sut wnaethom gyfathrebu â rhanddeiliaid,<br>• Rôl y Bwrdd Trawsnewid Digidol.<br>• Pwysigrwydd arweinyddiaeth a gweledigaeth (yn hytrach na thrwsio, derbyn a phwytho systemau ynghyd) i hyrwyddo lle rydym eisiau bod o bersbectif digidol.<br>• Y bydd Strategaeth Ddigidol wedi'i diweddaru'n cael ei chreu erbyn diwedd y flwyddyn galendr.<br>• Yr angen i fynd i'r afael â phob argymhelliad yn yr adroddiad wrth greu strategaeth newydd.<br>• Gwerth y Grŵp Cynghori Digidol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)<br>• Yr heriau sy'n gysylltiedig â thrawsnewid digidol pan mae cyllidebau mor dynn.<br><br>Yn ychwanegol i'r ddau adroddiad, trafodwyd amserlenni'r adroddiadau yn ogystal â'r angen am gynlluniau gweithredu i'w cynnwys mewn cyflwyniadau i'r Pwyllgor.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Nododd y Pwyllgor Adroddiadau Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Archwilio Cymru yn Atodiad A ac Atodiad B.</td></tr>
<tr><td>Dyddiad y Penderfyniad</td><td>18 Ebrill 2024</td></tr>
</table>

**137. Cofnod Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad hwn oedd darparu diweddariad i'r Aelodau ar Gofnod Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio a |

| | |
|---|---|
| | Llywodraethu.<br><br>Gwnaeth yr Aelodau sylw ar benodi aelod lleyg newydd a'r angen i fod yn ymwybodol o'r anghydbwysedd rhywedd y Pwyllgor.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Nododd y Pwyllgor y Cofnod Gweithredu a gofynnwyd am ymgynghori â'r Swyddog Monitro ynghylch a oes modd i'r Cadeirydd fod yn rhan o broses benodi'r aelod lleyg newydd. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 18 Ebrill 2024 |

## 138. Adnewyddu'r Cytundeb Partneriaeth Cydwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad hwn oedd cael safbwyntiau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar y cynnig i adnewyddu'r Cytundeb Partneriaeth Cydwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (CAMRh) gyda Bro Morgannwg yn parhau'n awdurdod cynhaliol, cyn i'r cynnig gael ei argymell i'r Cabinet i'w gymeradwyo.<br><br>Darparodd yr Aelodau sylwadau ar nifer o faterion yn ymwneud â'r adroddiad, yn cynnwys y canlynol:<br><br>• O ystyried sefyllfa ariannol llywodraeth leol, roedd partneriaethau'n hanfodol i ddarparu gwasanaethau.<br>• Wrth symud ymlaen, dylai fod mwy o effeithiolrwydd i bob partner drwy arbedion maint gydag archwilwyr arbenigol yn cael eu datblygu ymhellach i weithio ar draws yr holl bartneriaethau.<br>• Yr her o recriwtio archwilwyr i weithio yn y sector cyhoeddus.<br>• O ran sicrhau gwerth am arian gan ddarparwr mewnol, ymatebodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol drwy nodi bod y gost fesul diwrnod archwilio yn is na chyfartaledd y sector ac oddeutu dwy ran o dair o Wasanaethau Archwilio Mewnol SWAP.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Ystyriodd a chefnogodd y Pwyllgor: |

| | |
|---|---|
| | • Y cynnig bod y Cytundeb Partneriaeth Cydwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (CAMRh) yn cael ei adnewyddu, gyda Chyngor Bro Morgannwg yn parhau fel awdurdod cynhaliol, er mwyn atgyfnerthu gwytnwch busnes.<br>• Bod tri o'r partneriaid gwreiddiol - Cyngor Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful - yn parhau â'r trefniant ac yn arwyddo Cytundeb Partner newydd.<br>• Y cynnig bod y Cytundeb Partner yn cael ei gynnal yn barhaus gydag adolygiad partner ffurfiol bob pum mlynedd yn rhan ohono.<br>• Y cynnig y gall partneriaid ychwanegol ymuno â'r CAMRh fel partneriaid cyfartal yn unol â chymeradwyaeth Bwrdd CAMRh.<br><br>Nodwyd y byddai unrhyw safbwyntiau'n cael eu cynnwys wrth i'r cynnig gael ei argymell i'r Cabinet i'w gymeradwyo. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 18 Ebrill 2024 |

**139. Cynnydd yn Erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol yn Seiliedig ar Risg 2023-24**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad hwn oedd darparu datganiad sefyllfa i aelodau'r Pwyllgor ar y cynnydd a wneir yn erbyn y gwaith archwilio o fewn y Cynllun Archwilio Mewnol yn Seiliedig ar Risg 2023-24 a gymeradwywyd.<br><br>Mae'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun archwilio mewnol seiliedig ar risg 2023-24 a gymeradwywyd yn dangos bod 33 o 47 adolygiad archwilio a gynlluniwyd wedi eu cwblhau sy'n cyfateb i gyfradd gwblhau o 70%. Yn ychwanegol, mae 11 archwiliad bron â'u cwblhau ac os byddant yn cael eu gorffen dros yr wythnosau nesaf byddant yn cael eu cynnwys yn y ffigwr cwblhau ar gyfer 2023-24. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (GAMRh) wedi gosod targed o gwblhau 80% erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.<br><br>Yn seiliedig ar asesiad o gryfderau a gwendidau'r meysydd a archwiliwyd drwy brofi effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli mewnol, rhoddwyd barn archwiliad i 31 allan o'r 33 archwiliad a gwblhawyd. Rhoddwyd sicrwydd Rhesymol neu Sylweddol i 27 archwiliad a rhoddwyd sicrwydd Cyfyngedig i 4 archwiliad.<br><br>Gwnaed cyfanswm o 162 o argymhellion hyd yn hyn i wella'r amgylchedd rheoli. Mae'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn gweithredu'r rhain yn cael eu monitro'n gyson gan Archwilio Mewnol a'u hadrodd i'r Pwyllgor. |

| | |
|---|---|
| | Darparodd yr Aelodau sylwadau ar nifer o faterion yn ymwneud â'r adroddiad, yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Barn sicrwydd cyfyngedig o ran Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair.<br>• Bod materion sy'n ymwneud ag ysgolion wedi eu trafod yn y Bwrdd Rheoli Corfforaethol.<br>• Diffyg cynrychiolaeth o'r Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl ifanc yn y cyfarfod i fynd i'r afael â materion a nodwyd yn yr adroddiad ac i ateb cwestiynau'r Aelodau.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Fe wnaeth Aelodau'r Pwyllgor:<br><br>• Nodi cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Archwilio Mewnol yn Seiliedig ar Risg 2023-24; a,<br>• Gwnaed cais i'r Prif weithredwr a Chyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc gael gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod nesaf. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 18 Ebrill 2024 |

## 140. Monitro Argymhellion Archwilio Mewnol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad oedd darparu datganiad sefyllfa i aelodau'r Pwyllgor ar argymhellion archwilio mewnol sydd wedi eu gwneud i nodi'r rhai sydd wedi eu gweithredu a'r rhai sydd ar ôl ar 28 Mawrth 2024.<br><br>Gwnaed cyfanswm o 87 argymhelliad blaenoriaeth uchel a chanolig yn dilyn diwedd yr archwiliadau o'r cynllun blynyddol 2023-24. Cytunwyd â phob un a, hyd yn hyn, mae 48 wedi eu gweithredu, mae 2 yn hwyr ac mae gan 37 ddyddiad gweithredu i ddod. O ran yr archwiliadau a gwblhawyd cyn y flwyddyn ariannol hon, mae 2 argymhelliad yn hwyr, hynny yw, mae'r dyddiad cytunedig eu gweithredu wedi bod, ac mae gan 7 ddyddiad gweithredu i ddod.<br><br>Darparodd yr Aelodau sylwadau ar nifer o faterion yn ymwneud â'r adroddiad, yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Rheoli tanwydd cerbydau (cardiau tanwydd), lle cafodd gweithredu ei ohirio ond bellach wedi dechrau.<br>• Cyllid preifat mewn ysgolion, ac a fyddai modd mynd i'r afael â'r mater drwy'r broses graffu. |

| | |
|---|---|
| | • Gwytnwch busnes a chynllunio olyniaeth mewn perthynas â gohirio gweithredu'r argymhellion.<br>• Yr angen i ddiweddaru'r strategaeth barcio.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu:<br><br>• Gynnwys yr adroddiad ac ystyriwyd y wybodaeth a ddarparwyd o ran statws yr argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol.<br>• Cais bod penaethiaid gwasanaeth yn darparu diweddariadau ysgrifenedig i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor o ran yr holl faterion a nodir yn Atodiad B a C, gan nodi lle maen nhw arni yn eu cynllun gweithredu a phryd fydd y materion a amlinellir yn cael eu cwblhau os nad yw hynny eisoes wedi digwydd erbyn y dyddiad hwnnw.<br>• Cais i ystyried bod y mater o gyllid preifat i ysgolion yn cael ei gyfeirio at bwyllgor craffu. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 18 Ebrill 2024 |

**141. Gweithdrefnau a Phrosesau'r Adran TGaCh**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad oedd hysbysu Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sut mae prosesau a gweithdrefnau'r Adran TGaCh yn cael eu cynnal i sicrhau model gweithredu effeithiol sy'n lleihau amharu ar y Cyngor. Amlygodd yr adroddiad y nodau allweddol i ddiogelu'r rhwydweithiau, data a gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu darparu. Mae hyn yn cynnwys yr holl agweddau o ddiogelwch seiber, o ddylunio diogel systemau a gwasanaethau i reoli mynediad a delio â digwyddiadau.<br><br>Darparodd yr Aelodau sylwadau ar rai materion yn ymwneud â'r adroddiad:<br><br>• Bod yr adroddiad yn darparu sicrwydd i'r Pwyllgor ynghylch yr agwedd at weithdrefnau a phrosesau TGaCh.<br>• Bod hi'n amlwg bod ymdrechion sicr yn cael eu gwneud i rannu arfer dda yn y sector.<br>• Bod recriwtio i rolau uwch mewn TGaCh mewn llywodraeth leol yn hynod o heriol.<br><br>PENDERFYNWYD: |

| | |
|---|---|
| | Nododd y Pwyllgor yr adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 18 Ebrill 2024 |

**142. Dull Hunan Asesu ar gyfer 2023/24**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad oedd amlinellu dull datblygu hunan asesiad y Cyngor 2023-24.<br><br>Tynnodd yr aelodau sylw at y ffaith bod hon yn broses eithaf newydd, a bod angen bod yn amyneddgar i sicrhau ei bod yn cael ei hymgorffori yn ein diwylliant.<br><br>Cyhoeddwyd fod gweithdy yn cael ei gynnal i aelodau Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'r Gorfforaeth ar 3 Mehefin, i archwilio Safbwyntiau Defnyddiwr Gwasanaeth.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gan ystyried a chefnogi:<br><br>• Y ffordd ymlaen arfaethedig ar gyfer hunan asesu yn 2023-24.<br>• Y strwythur hunan asesu a nodir yn Atodiad 1.<br>• Y fethodoleg arfaethedig i sgorio nodau a nodir yn Atodiad 2.<br>• Yr opsiynau ar gyfer ymgynghoriad ac ymgysylltiad cyhoeddus parhaus a amlinellir ym mharagraffau 3.9 a 3.10 |
| Dyddiad y Penderfyniad | 18 Ebrill 2024 |

**143. Datganiad o Gyfrifon 2022-23: Gwersi a Ddysgwyd**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad oedd cyflwyno'r gwersi a ddysgwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'n dilyn cwblhau archwiliad Datganiad o Gyfrifon 2022-23. |

| | |
|---|---|
| | Tynnodd Aelodau sylw at y gweithdy y cyfeirir ato ym mharagraff 3.4 a'r cyfle a ddarparodd i staff gyfrannu at wella'r prosesau a systemau.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'r adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 18 Ebrill 2024 |

**144. Blaenraglen Waith 2024-25**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad oedd ceisio sicrhau cymeradwyaeth am y Flaenraglen Waith ar gyfer 2024-25 a ddiweddarwyd.<br><br>Trafododd yr Aelodau nifer o faterion yn ymwneud â'r adroddiad hwn.<br><br>• Y system dalu am brydau ysgol ac a oes angen ystyried hyn fel rhan o'r broses graffu.<br>• Y meini prawf a chyfnod o ddisgwyl am adroddiadau i'r Pwyllgor. Nodwyd y bydd y Swyddog Monitro'n cael ei holi ynghylch hyn, ac y bydd Aelodau'n cael eu diweddaru'n uniongyrchol.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Fe ystyriodd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith wedi ei diweddaru ar gyfer 2024-25, a'i chymeradwyo.<br><br>Dylai'r Prif weithredwr a Chyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc gael gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod nesaf. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 18 Ebrill 2024 |

## 145. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim |
| Dyddiad y Penderfyniad | 18 Ebrill 2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 12:46.